AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 228 Chwefror – Mawrth 2021

Synod Cymru

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Rwy'n siŵr bod llawer o bobl wedi teimlo rhyddhad o gael dweud 'Hwyl fawr 2020', gan groesawu 2021 â breichiau agored! Roedd y llynedd mor anodd, yn arbennig i rai. Fydd bywyd byth yr un fath, oherwydd inni fyw trwy 2020. Wrth i mi ysgrifennu, mae rhaglen frechu yn erbyn Covid-19 wedi dechrau yng Nghymru, a gobeithio y gwireddir y cynlluniau yn ddidramgwydd. Ond os ydym ni wedi dysgu rhywbeth yn ystod y deuddeg mis diwethaf, dysgu wnaethom ni pa mor sydyn y gall pethau newid. Gobeithio y cawsoch gyfle i ddarllen neges y Parchedig Ddr Jonathan Hustler, Ysgrifennydd y Gynhadledd Fethodistaidd, ar wefan yr enwad ym mis Rhagfyr (www.methodist.org.uk/about-us/news/latest-news/all-news/in-time-of-disappointment/). Ysgrifennodd Jonathan am siomedigaeth, yn arbennig ar ôl i ddisgwyliadau ar gyfer dathlu'r Nadolig newid yn gyflym i lawer o bobl, er enghraifft yn sgil cyflwyno cyfyngiadau haen 4 fel mater o frys yng Nghymru. Wnes i werthfawrogi meddyliau Jonathan. Wrth i mi fyfyrio ar golli cymaint o obeithion fy Sabothol yn y gwanwyn, sylweddolais imi orfod dysgu beth wnes i alw yn fy mamiaith yn '*discipline of disappointment*'. Mae hen ddywediad Iddewig yn dweud, "Mae dyn yn cynllunio ac mae Duw yn chwerthin." Dydw i ddim yn siŵr ydw i'n cytuno – siŵr o fod, mae Duw yn wylo yn aml, buaswn i'n meddwl – ond mae llawer o ddoethineb yn y traddodiad Iddewig wrth gwrs.

### Dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru

Mae gan Synod a Chylchdaith Cymru gynlluniau ar gyfer y dyfodol, a'n cyfrifoldeb ni yw mynd ati i'w cyflawni gan gadw mewn cof y posibilrwydd y bydd yn rhaid ailgynllunio wrth fynd ymlaen. Penderfynodd y Synod ym mis Tachwedd 2020 ddod â'r Synod i ben a cheisio sicrhau bod Cylchdaith Cymru yn parhau oddi mewn i Synod newydd ynghyd â chylchdeithiau presennol Wales Synod. Mae'r Cyngor Methodistaidd, y corff sy'n cyfarfod rhwng cyfarfodydd y Gynhadledd Fethodistaidd i oruchwylio bywyd yr eglwys, wedi gofyn i ni roi gwybod am ein penderfyniadau terfynol erbyn cyfarfod y Cyngor hwnnw yn Hydref 2021, gyda'r disgwyliad y bydd Synod newydd yn dod i fodolaeth o fis Medi 2022 ymlaen.

### Penderfyniadau i'w gwneud

I dorri stori hir yn fyr, mae hynny yn golygu llawer o waith i gynrychiolyddion y ddau Synod. Bydd angen paratoi dogfennau gyda gwybodaeth am y cynlluniau, ynghyd â'r cynigion angenrheidiol, fel y gall y Synodau, Cymru a Wales, benderfynu yn ein cyfarfodydd y gwanwyn hwn sut mae arnom ni eisiau gweithredu. Yna fe roddir gwybod i'r Cyngor Methodistaidd. Mae angen cynlluniau ar gyfer yr ochr ariannol a staffio ac mae goblygiadau sylweddol o ran niferoedd gweinidogion ordeiniedig (o bosib dim ond un yng Nghylchdaith Cymru sef Arolygydd y Gylchdaith), yn ogystal â strategaeth cenhadu. Bydd rhaid adrodd i Gyfarfod y Gylchdaith a Phwyllgor Polisi Synod Cymru yn y cyfamser, y ddau ohonynt ym mis Chwefror. Trwy'r broses i gyd, mae gennym ni gefnogaeth ac arbenigedd swyddogion y Cyfundeb, sy'n werthfawr iawn.

### Cyfathrebu a chydweithio

Unwaith eto, mae'n fy nharo pa mor berthnasol yw themâu ein Synod eleni wrth i ni edrych tuag at y dyfodol. Os oes yna ansicrwydd, mae'n bwysig cyfathrebu a chydweithio, a dyna'r pethau rydym wedi dewis canolbwyntio arnynt, o blith y chwe thema a ddaeth i'r amlwg yn sgil Adolygiad Synod a Chylchdaith Cymru. Mae cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad i gydweithio yn helpu ym mhob agwedd ar fywyd – gofynnwch i unrhyw bâr priod! Mae'n anodd pan nad ydym ni'n gwybod beth sy'n mynd ymlaen, felly mae'n bwysig i gynrychiolyddion yr Ardaloedd ar Gyfarfod y Gylchdaith, y Pwyllgor Polisi a'r Synod adrodd yn ôl bob amser i'w Hardal. Does dim angen i neb deimlo ei fod yn y tywyllwch.

### Cofio beth yw'r nod

Yn ogystal â chyfathrebu a chydweithio, rhywbeth arall sy'n ein helpu ni mewn sefyllfa ansicr yw rhannu ffocws a gweledigaeth ehangach. Os oes gennym nod, os gwyddom i ble rydym yn bwriadu mynd yn y diwedd, mae hyn yn help mawr pa mor anodd bynnag ati adegau yw cael hyd i'r ffordd ar y daith. Yn ôl yn 2013, pan ysgrifennais fy narn cyntaf ar gyfer y *Gwyliedydd*, soniais am "geisio yn gyntaf deyrnas Duw a'i gyfiawnder ef" (Mathew 6: 33), beth bynnag a ddaw. Dyna fy nod o hyd. Mae'r eglwys yn bwysig, ydi, ond mae teyrnas Duw yn llawer pwysicach – **Y** Peth Pwysig, a dweud y gwir. Bydd aelodau'r Synod yn ymwybodol erbyn hyn, gobeithio, o Ffordd Fethodistaidd o Fyw (www.methodist.org.uk/our-faith/life-and-faith/a-methodist-way-of-life/) a'i bwriad i'n helpu ni i ddilyn Iesu yn well bob dydd. Mae'r gair *Methodistaidd* yn amherthnasol yma mewn gwirionedd (cofiwch, rwy'n caru'r Eglwys Fethodistaidd!): ein galwad fel Cristnogion i "geisio yn gyntaf deyrnas Duw" yw'r prif beth. Os gwnawn ni rannu'r ymrwymiad hwn, a chanolbwyntio arno, byddwn ni'n cyrraedd lle mae Duw eisiau i ni fod.

Gobeithio nad yw'n rhy hwyr i mi ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi oll. Pob bendith wrth i ni barhau i geisio teyrnas Duw gyda'n gilydd, er ei ogoniant.




Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 228**
**CHWEFROR – MAWRTH 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
4 MAWRTH 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Ian Mason


## Rhoddion a Thanysgrifiadau

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn fawr iawn.

- Mr R. Tegid Jones, Rhosllanerchrugog £25-00
- Capel Pisgah, Rhiwlas £50-00
- Mrs Merle Davies, Abergwaun £20-00
- Dienw £50-00
- Mr Eryl Davies, Caerwys £12-00
- Mr D.W. Evans, Aberdaron £30-00
- Y Parchg Dilys Jones, Amwythig £15-00
- Mrs Elan Griffith, Casnewydd £10-00
- Mrs M. Povey, Wrecsam £20-00
- Mr E. Lloyd Jones, Prion, Dinbych £30-00
  (tanysgrifiad ynghyd â rhodd o £25-00 er cof am ei dad, y diweddar G. Edgar Jones, Porthmadog)
- Mrs Iola Evans, Croesoswallt £20-00
- Mrs L. M. Thomas, Llanrhaeadr Y M £5-00
- Dienw £120-00
- Dienw £5-00
- Dienw £25-00
- Prifysgol Bangor £10-00
- Llyfrgell Ganolog Caerdydd £10-00

**Cyfanswm £457-00**

## ADDEWID I WEITHIO DROS DDIARFOGI NIWCLEAR

Neges oddi wrth Awel Irene, Cymdeithas y Cymod

Ar 22ain o fis Ionawr 2021 medrwn ddathlu o'r diwedd fod arfau niwclear yn anghyfreithlon yn rhyngwladol. Mae dros 50 o wladwriaethau cenedlaethol sy'n perthyn i'r Cenhedloedd Unedig wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear.

Ond wrth gwrs mae'r llywodraeth sydd gennym yn San Steffan wedi gwrthod arwyddo fel y gwledydd eraill sy'n berchen ar arfau niwclear.



Mae CND Cymru a Chymdeithas y Cymod yn apelio ar bob un sy'n darllen yr erthygl hon am eich cymorth. A fedrwch chi annog eich gweinidogion a'ch arweinwyr lleyg i arwyddo addewid i weithio ymysg eu cymunedau i ddwyn pwysau ar ein cynrychiolwyr etholedig i gymryd safiad yn erbyn arfau niwclear?

Hon yw'r addewid: "*Fel arweinydd ffydd, rwy'n croesawu gweld Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear y Cenhedloedd Unedig yn dod i rym ar yr 22ain o fis Ionawr, 2021. Ystyriaf y cam hwn yn un pwysig ar y daith tuag at weld byd sy'n rhydd o arfau niwclear. Rwy'n rhannu'r pryder dwfn a fynegir yn rhagymadrodd y Cytundeb ynghylch canlyniadau defnyddio unrhyw arf niwclear. Byddai hyn yn gwbl drychinebus i ddynoliaeth. O'r herwydd rwyf o'r farn y dylid cael gwared ar yr arfau creulon ac annynol hyn. Rwy'n addo dadlau'r achos moesol dros y Cytundeb hwn ac yn galw ar lywodraeth y DU i'w gadarnhau a'i lofnodi.*"

Bydd enwau'r rhai sy'n arwyddo'r addewid yn ymddangos ar wefannau CND Cymru a Chymdeithas y Cymod ac yn rhan o ddatganiadau cyhoeddus pellach. I ychwanegu eich enw neu enw eich arweinydd ffydd, e-bostiwch heddwch@cndcymru.org gyda'ch teitl, enw, a'ch swydd gyda'ch ffydd neu enwad.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

I ddeall cyflwr ysbrydol y cyfnod cyn dechrau deffroad Hywel Harris yn 1735, mae'n rhaid craffu ar sefyllfa'r Eglwys Sefydledig yng Nghymru yn ystod yr hanner can mlynedd flaenorol. O ran y gyfundrefn eglwysig roedd yr Eglwys yn dal o dan weinyddiaeth y byddai crefyddwyr y canol oesoedd yn ei hadnabod yn dda iawn. Yn 1700 roedd esgob yn weinyddwr sifil ac yn arweinydd eglwysig yr un pryd. Roedd yn ofynnol i bob esgob eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi am o leiaf naw mis bob blwyddyn a golygai hyn eu bod i bob pwrpas yn byw yn barhaol yn Llundain. Gan fod costau byw yno mor uchel a chyflogau esgobion Cymru mor isel, roeddynt yn rhyfeddol o dlawd eu byd. Gan mai ond tri mis yn yr haf oedd ar gael i ymweld â'r esgobaethau a bod gorchwylion eraill yn cael eu sylw, prin ei bod yn bosib i esgob ddod i adnabod offeiriaid a churadiaid y plwyfi heb sôn am addolwyr yn yr eglwysi.


Mater arall oedd yn flinder i lawer oedd y ffaith mai Saeson oedd y mwyafrif o esgobion Cymru. Rhwng 1700 a 1870 tri Chymro Cymraeg trwyadl fu'n esgobion sef Humphrey Humphreys a John Evans, Bangor a John Wynn, Llanelwy. Roedd yna duedd hefyd i benodi dynion hŷn fel yr Esgob Geoge Bull a oedd yn 71 oed ac mor fregus ei iechyd fel na allai fynd i'r Senedd hyd yn oed. Erbyn y cyfnod hwn roedd swydd yr archddiacon wedi peidio â bod i bob pwrpas a'r deoniaid gwlad, lle'r oedd rhai, yn aneffeithiol. Mewn gair ychydig iawn o gysylltiad oedd rhwng yr esgob a'i glerigwyr a llai fyth gyda'i guradiaid.

Rhaid pwysleisio bod llawer o'r esgobion yn ddynion galluog a chydwybodol ond gallai eraill ddisgyn oddi wrth ras. Un o Lwyn Rhirid, Ffordun oedd Edward Jones (1641 - 1703). Wedi graddio o Goleg y Drindod Caergrawnt bu'n athro yn Kilkenny gyda neb llai na Jonathan Swift yn ddisgybl iddo. Bu'n esgob Cloyne o 1684 cyn symud i Lanelwy yn 1692. Mae'r Athro R T Jenkins yn disgrifio ei dymor yn Llanelwy fel un *llwgr, llac a gorthrymus*. Aeth gerbron Llys yr Archesgob wedi i 38 o glerigwyr ei esgobaeth gwyno amdano. Plediodd yn euog o simoniaeth sef prynu a gwerthu breintiau eglwysig megis bywoliaethau, gadael i leygwyr weithredu fel curadiaid, a dyrchafu un, â chymeriad gwarthus ganddo, yn ganon. Mab yr esgob hwn oedd Dr Thomas Jones a oedd, yn 1710, yn ficer Betws-yn-rhos, rheithor Y Cwm, ficer Llanrhaeadr ym Mochnant a ficer Llanfair Caereinion. Cyfanswm ei gyflog o'r plwyfi hyn oedd £182. Gan fod cost cyflog curad ar gyfartaledd yn £20 (llai na chyflog gwas ffarm), fe fyddai modd byw yn fras ar yr hyn oedd yn weddill. Gellir ychwanegu at restr y methiannau hyn safon wael o ran addysg llawer o'r curadiaid a gwasanaethau nad oeddynt ond yn ddarlleniadau brysiog ac annigonol o'r Llyfr Gweddi. Mewn rhai eglwysi roedd pregethau yn anfynych nes iddynt beidio â bod mewn plwyfi pellennig.

Roedd sefyllfa'r Eglwys mor ddiffaith erbyn 1800 fel y dywedodd Richard Lewis, Esgob Llandaf amdani ei bod yn dangos holl arwyddion a nodweddion Eglwys yn dadfeilio a marw. Ond o 1800 ymlaen daeth tro ar fyd yn ei hanes. Yn raddol, o dan arweiniad medrus, fe gafwyd newidiadau gweinyddol ac ariannol. Tyfodd adain Efengylaidd ynddi a gweithiodd dilynwyr Mudiad Rhydychen yn egnïol hefyd. Yn 1836 daeth y Comisiwn Eglwysig yn gyfrifol am gyflogau esgobion, gan ddileu'r angen am swyddi eraill. Penodwyd canoniaid i'r eglwysi cadeiriol ac atgyfodwyd swydd yr archddiacon a bu aildrefnu ar ffiniau'r esgobaethau a'r deoniaethau gwlad. Gwelwyd mwy'n ymgeisio am urddau pan sefydlwyd Coleg Llanbedr rhwng 1822 ac 1825. Rhoddwyd pwyslais ar safonau uwch ar gyfer clerigwyr ac arweiniodd y bywiogrwydd newydd at adfer rhai adeiladau a fu'n ddrylliedig ers blynyddoedd maith. Penllanw'r holl weithgareddau oedd y wedd newydd oedd yn amlwg erbyn 1900. Erbyn hynny wrth gwrs, roedd yr Eglwys er yn anfoddog ar ei ffordd i ddatgysylltiad a ddaeth wedi peth oedi i fodolaeth yn 1920.

Fe ellir gyda chymorth ystadegau weld sefyllfa'r Eglwys Wladol a'r Eglwysi ymneilltuol rhwng 1851 a 1995. Yn 1851 roedd gan yr Eglwys 1180 o addoldai ac erbyn 1905 roedd ganddi 1546. Rhif addoldai'r Ymneilltuwyr yn 1851 oedd 2760 a 4280 yn 1905. Roedd gan yr Eglwys 193,081 o gymunwyr yn 1905 a'r Ymneilltuwyr gyda 550,280 o aelodau. Erbyn 1995 roedd gan yr Eglwys 1521 o eglwysi a 71,905 o fynychwyr. 2559 o addoldai oedd gan yr Ymneilltuwyr y flwyddyn honno a 87,360 o fynychwyr.

A hithau bellach wedi dathlu canmlwyddiant datgysylltu, fe wyddom fod yr Eglwys yng Nghymru, fel enwadau eraill, yn wynebu heriau mawr. Ond rydym yn falch iawn o'i llongyfarch ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon ac fe ddymunwn y bydd hi'n llwyddiannus yn gweithredu ei strategaeth flaengar ar gyfer y dyfodol.





# Dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru

*gan y Parchedig Ian Morris*

Cyfarfu'r Synod drwy Zoom ar 7 Tachwedd 2020. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, y Parchedig Ddr Jennie Hurd a diolchwyd i Maryl Rees am wneud y trefniadau. Y brif eitem dan ystyriaeth oedd dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru. Roedd y Synod wedi cytuno ymlaen llaw y byddai adroddiadau eraill, heblaw Cyllid ac Eiddo, yn cael eu dirprwyo i gyfarfod nesaf Pwyllgor Polisi'r Dalaith.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf fe adolygwyd gwaith y Synod a'r casgliad y daethpwyd iddo oedd fod yn rhaid wrth newidiadau sylfaenol er mwyn diogelu gweinidogaeth a chenhadaeth Gymraeg yr Eglwys Fethodistaidd. Cynigiwyd dau opsiwn ar gyfer ad-drefnu'r gwaith.

Golygai Opsiwn 1 y byddai'r Synod yn ceisio cydweithio â Wales Synod er mwyn ffurfio un Dalaith Fethodistaidd yng Nghymru. Byddai Cylchdaith Cymru yn **parhau fel cylchdaith Gymraeg o fewn y Dalaith honno ond un gweinidog yn unig fyddai ganddi, sef arolygydd Cylchdaith Cymru. Aelodau lleyg fyddai'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith bugeiliol a chenhadol yn lleol.**

Byddai Opsiwn 2 hefyd yn golygu cydweithio'n glòs â Wales Synod er mwyn ffurfio Talaith newydd ddwyieithog. Byddai cylchdaith Cymru yn dod i ben a phob un o'i chapeli yn **ymuno â'r gylchdaith agosaf o fewn y Wales Synod bresennol**. Byddai pob capel yn parhau i addoli yn Gymraeg. Unwaith eto byddai'n rhaid i leygwyr gynnig arweiniad yn lleol.

Gan fod tua 25 y cant o bobl Cymru yn siarad Cymraeg, mae'n amlwg yn hollbwysig cenhadu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y Synod hefyd yn croesawu'r ffaith fod y Cyngor Methodistaidd yn cydnabod pwysigrwydd gweinidogaeth a chenhadaeth Gymraeg fel rhan o bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Eglwys Fethodistaidd. Trafododd y Synod rinweddau cynnal strwythur cylchdaith fel prif uned cenhadaeth, gan alluogi capeli i rannu adnoddau a syniadau sy'n perthyn yn benodol i'r diwylliant Cymraeg.

Rhoddwyd cyfle i'r rhai oedd yn bresennol bleidleisio drwy bleidlais gudd ac roedd y mwyafrif o blaid Opsiwn 1. Y cam nesaf fydd mynd ymlaen i drafod gyda Wales Synod.

**Diweddariad a neges gan y Parchg Ddr Trevor Hoggard, Ionawr 2021**

Ers ein pleidlais yn y synod ym mis Tachwedd pan bleidleisiwyd dros opsiwn 1, rydym wedi bod yn sgwrsio gyda Wales Synod gan gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae siâp y synod newydd yn dod yn gliriach yn raddol, wrth i awgrymiadau newydd gael eu gwneud ac i gynlluniau gael eu newid.

Gobeithiwn gyflwyno ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'n dau synod ym mis Mawrth (Synod Cymru, 27 Mawrth) ac Ebrill (Wales Synod). Bydd y cynllun hwn ar gyfer y dyfodol yn ein helpu i benderfynu beth y dylem fod yn ei wneud nawr, neu o leiaf pan fyddwn yn ailagor ein capeli. Ond beth bynnag fydd siâp y synod newydd yn y dyfodol, gallwn lawenhau yn yr addewid y bydd Iesu gyda ni lle bynnag y daw dau neu dri ynghyd.



## Cymro yn Llywydd Ieuenctid

Etholwyd Daud Irfan, 21 oed, o Gaerdydd yn Llywydd Ieuenctid nesaf yr Eglwys Fethodistaidd, ar gyfer y flwyddyn gyfundebol 2021-22. Mae teulu Daud wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers rhyw 15 mlynedd ac mae ei dad, y Parchedig Irfan John, yn alluogwr o fewn Wales Synod ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol eu diwylliant.

Y thema y mae Daud wedi ei dewis ar gyfer y flwyddyn yw Eglwys Dduw yn Gartref i Bawb. Gwaith y Llywydd yw cynrychioli pobl ifanc a'u helpu i chwarae rhan lawn ym mywyd yr Eglwys: bydd llais yr ifanc yn eithriadol o bwysig wrth inni ailadeiladu ac adnewyddu ein byd, gobeithio, ar ôl cyfnod y pandemig.

Llongyfarchiadau a phob bendith, Daud. Mae Synod Cymru yn dymuno pob rhwyddineb i ti gyda'r gwaith.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Tabernacl, Llanfyllin

**OEDFA'R NADOLIG**
Buom yn ffodus i fedru cynnal Gwasanaeth Nadolig ar y Sul cyn y Nadolig. Roedd yn wasanaeth o ddarlleniadau a charolau. Cafwyd rhannau penodol oedd yn canolbwyntio ar wragedd yn Stori'r Geni ac fe ddarllenwyd darn Myfyrdod Mair, Ymson 'Gwraig y Llety' a darlleniad am Gariad o safbwynt gwraig yn ein byd heddiw. Mwynhawyd gwrando ar garolau addas a darlleniadau o'r Beibl oedd yn adrodd Stori'r Geni. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs Mair Ellis ac Alwena Francis a chymerwyd rhan gan aelodau capeli'r Tabernacl, Soar a Phendref.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mr Geraint Jones, Hafod Unnos, ar gyrraedd carreg filltir arbennig wrth ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato ar yr achlysur arbennig hwn.

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gydag Elwyn a Llywela Roberts, Elin, Rhys a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef Mrs Rosamund Ellis, Llangynog, yn ddisymwth fis Rhagfyr. Cofion atynt.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Eglwys Unedig Colwyn

**PARHAU I ADDOLI**
Yn anffodus bu'n rhaid wynebu cyfnod clo unwaith eto ac mae'n chwith iawn peidio â chael cyfle i ddod at ein gilydd i addoli. Mae'r gwasanaethau Zoom yn mynd ymhell iawn i lenwi'r bwlch ac rydym yn falch o ddeall eu bod am barhau am beth amser. Diolch i bawb sydd yn gweithio'n galed i drefnu'r gwasanaethau hyn. Mae Owen Morris hefyd wedi paratoi myfyrdodau rhagorol a chawsom fendith o'u darllen.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymuniadau gorau a llawer o ddiolch i Arfon Williams ar ddiwedd ei gyfnod fel Gweinyddydd ac Ysgrifennydd Synod Cymru a Thrysorydd y Gylchdaith.

Cofion annwyl at bawb a phob dymuniad da ar gyfer y flwyddyn newydd.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

### Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Er bod cyfyngiadau Covid-19 mewn grym, buom yn ffodus yma ym Mhendref i fedru cynnal oedfaon. Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr cawsom oedfaon bendithiol dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd, y Parchedig Glyn Thomas a'r Hybarch Bernard Thomas. Ar y Suliau pan nad oedd pregethwyr ar gael, cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi o dan arweiniad rhai o aelodau'r capel. Hoffem ddiolch i Heulwen Ellis, Bethan Roberts, Hywel Evans, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones am gymryd rhan yn y gwasanaethau. Diolch hefyd i Vera Savage am chwarae mor effeithiol donau'r emynau ar y Clavinova tra bu'r gynulleidfa yn myfyrio dros eiriau'r emynau. Diolch yn ogystal i Elfed Evans a Sheila Thomas, am eu gwaith fel blaenoriaid yn y misoedd hyn.

Yn ystod y gwasanaeth dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd fe weinyddwyd y Cymun Sanctaidd am y tro cyntaf ers mis Mawrth 2020. Oherwydd y cyfyngiadau presennol dilynwyd trefn arbennig a gwahanol ar gyfer gweinyddu'r Cymun.

Yn ystod cyfnod yr Adfent a'r Nadolig paratowyd y preseb gan Gwyn a Sylvia a mawr yw ein diolch i'r ddau am eu gwaith. Diolch hefyd i Bethan am drefnu pum cannwyll yr Adfent.



**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchedig Cledwyn Parry ac anfonwn ein cofion yn ogystal at yr aelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**DECHRAU BLWYDDYN**
Ar y Sul cyntaf o Ionawr 2021, er nad oedd pregethwr ar gael fe gynhaliwyd oedfa Adnewyddu'r Cyfamod dan ofal Hywel Evans ac Elfed Evans. Mae'r traddodiad Methodistaidd arbennig hwn wedi ei gynnal yma ym Mhendref ers dros ganrif bellach. Dymunwn yn dda i bawb yn ystod y flwyddyn.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### Salem, Rhyd y Foel

**SYSTEM SAIN**
Mae'r cyfnod clo a threfn y gwasanaethau o dan y canllawiau newydd wedi gwneud i ni sylweddoli fod angen system sain arnom yn Salem. Fe fuom yn ffodus iawn i dderbyn rhodd gan y Cyfarfod Ardal tuag at y gwaith ac rydym yn dra diolchgar am y cyfraniad hwn. Yn y dyfodol agos bydd y dechnoleg ar gael gennym i glywed y myfyrdod ac emynau a cherddoriaeth yn eglur gan na chaniateir canu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn sicr o fudd mawr i ni yn ein gwasanaethau. Mae cwmni "Apple Sound" eisoes wedi dechrau ar y gwaith ac edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r cyfarpar.

**GWASANAETH Y NADOLIG**
Ddydd Sul Rhagfyr 20fed cynhaliwyd gwasanaeth y Nadolig o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr Trevor Hoggard. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs Mona Jones a Mrs Catherine Blythin gyda Miss Esther Roberts yng ngofal y taflunydd a chryno ddisg o garolau. Diolch i Esther am drefnu'r gwasanaeth ac am addurno'r sedd fawr. Diolch hefyd i Ieuan am drefnu coeden Nadolig liwgar y tu allan i'r capel. Fe wnaeth y goeden godi calon llawer o drigolion y pentref a'r fro yn ystod tymor y Nadolig.

**GENEDIGAETH**
Ar nodyn llawen iawn, hyfryd yw cael llongyfarch Elwyn a Julie Roberts, Cefn Castell, ar enedigaeth merch fach sef Nia, wyres i Bobby ac Eryl Roberts, Tan yr Ogof.

**CYFRANNU**
Yn ystod gwasanaeth y Nadolig derbyniwyd cyfraniadau tuag at Gweithredu dros Blant ac roedd y cyfanswm yn dod i £120.00. Mae'r elusen hon yn agos at galon pob un ohonom.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE



### Bethel, Prestatyn

**GWASANAETH NADOLIG**
Roedd ein gwasanaeth Nadolig yn hollol wahanol y tro hwn, gan nad oedd modd dathlu yn y ffordd arferol gyda drama'r geni a chanu carolau. Paratowyd ffilm yn cynnwys darlleniadau, caneuon a lluniau o'r plant. Diolch i bawb am yrru lluniau a fideos, ac i'r plant am ddod i'r capel i ffilmio pan nad oedd yr oedolion yno. Diolch yn arbennig i Ffion am roi popeth at ei gilydd. Mwynhawyd y ffilm yn fawr, yn enwedig gan y plant a oedd yn mwynhau gweld eu hunain ar y sgrin.

**DATHLU'R HANNER CANT**
Cawsom hefyd gyfle i longyfarch Geraint a diolch iddo am ei wasanaeth fel organydd ym Methel am hanner can mlynedd. Diolchwyd iddo gan Miss Jane Ellis a oedd yn aelod o'r Ysgol Sul yn 1970 pan ddaeth tad Geraint, y diweddar Barchedig Clifford Roberts, yn weinidog yma. Darllenodd Angela benillion a ysgrifennwyd gan Mr Geraint Jones Evans i ddathlu'r achlysur.



**DYMUNO'N DDA**
Dymunwn yn dda i'r holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Anfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau atoch. Mae llawer o'r aelodau yn ffonio'r cleifion yn rheolaidd am sgwrs a diolchwn yn arbennig i'n bugail y Parchedig Brian Huw Jones am ei wasanaeth wythnosol sy'n cael ei ddosbarthu i'r cleifion.

**GŴYL COED NADOLIG PRESTATYN**
Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, bu'n rhaid i'r Ŵyl eleni fod yn rhithiol. Thema Ysgol Sul Bethel oedd 'Clychau yn canu o amgylch y byd' a bu'r plant yn brysur yn gwneud clychau a lluniau o blant ar draws y byd. Ein neges eleni oedd, beth bynnag fyddai'r newidiadau i'n Nadolig, fe fyddai'r clychau'n dal i ganu i ddathlu genedigaeth Iesu Grist.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES





**DIOLCH**
Erbyn hyn mae Mrs Eluned Owen a Mrs Rowenna Hughes wedi ymddeol o'u swyddi fel Ysgrifennydd a Thrysorydd y Capel. Yn ystod y gwasanaeth Nadolig diolchodd Geraint Roberts iddynt am eu gwaith graenus dros lawer o flynyddoedd a chyflwynwyd tusw o flodau iddynt gan Mrs Gaynor Fox ar ran yr aelodau. Dymunwn bob bendith i Mrs Bethan Purser, ein trysorydd newydd, a Geraint Roberts sydd wedi derbyn swydd yr ysgrifennydd.

### Ebeneser, Dolgellau

**OEDFAON**
Ers dechrau'r Cyfnod Clo ym mis Mawrth rydym wedi bod yn anfon adnoddau addoli yn wythnosol at bawb, drwy e-bost neu wedi'u hargraffu. Os yw'r capel ar gau, mae cyfle i addoli drwy Zoom i unrhyw un sydd yn dymuno. Aethom yn ôl i'r capel i addoli ar y 6ed o Fedi ond wrth gwrs bu'n rhaid i ni gau eto ddiwedd Hydref am dri Sul pan ddaeth y Clo Byr ac yna penderfynwyd cau eto ar 27ain Rhagfyr nes bydd y sefyllfa bresennol yn gwella.

**DIOLCHGARWCH**
Cafwyd Oedfa Ddiolchgarwch ar 18fed Hydref ac mewn canlyniad i'r casgliad anfonwyd £275.00 fel rhodd i Fanc Bwyd De Meirionnydd.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Alan ac Alison Woodbridge sydd wedi symud i fyw i Gil Cain, Pencefn yn ddiweddar. Pob bendith a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion cynnes at Wyn Meredith yn ei anhwylder.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Diacon Stephen Roe a'r teulu wedi iddo golli ei chwaer yn Durham cyn y Nadolig.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mrs Doreen Thomas oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 13eg o Ragfyr.

Llongyfarchiadau i Ruth a Michele ar enedigaeth merch fach, Elena, ar 27ain Hydref, chwaer fach i Arran. Roedd Ruth yn aelod o'r Ysgol Sul yn Ebeneser ac mae'n wyres i Mrs Dorothea Evans ac yn nith i Menna a Gwyn Lloyd Jones.

**YSBYTY**
Anfonwn ein cofion at Frank, gŵr Irene Edge, sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

### Saron, Bethel, Arfon

**Y FEIRWS**
Mae pawb i gadw'i bellter
a'r plant i gadw draw.
Dim capel na chymdeithas,
dim 'hygs' nac ysgwyd llaw.
Mor bwysig ydi'n bod ni gyd
yn cofio rhai sy'n waeth eu byd.
R.J.

# Osian Ellis – Brenin y Telynau

### *gan W. Arvon Roberts*

Ym mhob cylch y mae rhywrai yn rhagori. Ar bob maes y mae pencampwr. I genedlaethau ohonom a'i clywodd yn tynnu miwsig o'i delyn, y pencampwr yn y maes hwn oedd y diweddar Ddr. Osian Ellis a fu farw ym mis Ionawr eleni.

Ganwyd Osian Gwynn Ellis yn Ffynnongroyw, Sir y Fflint, ar Chwefror 8fed 1928. Treuliodd bedair blynedd cyntaf ei fywyd yn Llys Myfyr, Allt Llinegr, yn fab i weinidog Wesleaidd sef y Parchedig Thomas Griffith Ellis a'i wraig Jennie. Ganwyd ei dad yn Aberdaron yn 1888 a bu farw ym Mhrestatyn ar 27 Awst 1985, ar ôl saith deg mlynedd yn y weinidogaeth. Teithiodd Osian gyda'i rieni a'r plant eraill, o gylchdaith i gylchdaith – o Ffynnongroyw i Golwyn, i Abergele, i Ddinbych, i Dreffynnon – a chael ei addysgu yn ysgolion y lleoedd hynny. Ond i Ysgol Ramadeg Dinbych yr oedd ei ddyled fwyaf. Yno bu'n ôl-geidwad ar y maes pêl-droed ac yn gapten y tîm criced. Yn Ysgol Dinbych hefyd y cafodd gefnogaeth a chyfarwyddyd ei ddau athro cerdd, Emrys Cleaver a Dr Pritchard, y ddau yn gerddorion o fri. Yn ddwy ar bymtheg oed, wedi ennill ysgoloriaeth, fe'i derbyniwyd i'r Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, lle bu wedyn yn athro'r delyn o 1959 i 1989. Yn 1961 ymunodd â Cherddorfa Symffoni Llundain.

Beth bynnag oedd maint y cymorth a gafodd gan ei athrawon yn yr ysgol, byddai Osian yn cydnabod fod ganddo fwy o ddyled i'w rieni. Dysgwyd y plant i gyd i ganu gyda'r delyn. Ffurfiwyd côr ar aelwyd y mans, a grwydrodd o gapel i gapel gyda'r tad yn traethu ar y delyn a'r côr yn canu gyda'r delyn. Yn blentyn cafodd Osian ei suo i gysgu yn sŵn ceinciau telyn, a chlywed ei chanu. Dechreuodd ganu telyn ei hun pan nad oedd ond yn ddeg oed, ac yn fuan iawn dangosodd fod ganddo ddawn gynhenid i'w thrafod. Wedi darfod cwrs ei addysg ac ennill doethuriaeth, ni fu'n hir cyn ennill sylw'r byd cerddorol.

Gwyddem ni'r Cymry am Osian Ellis drwy gyfrwng ei recordiau niferus, cyngherddau a beirniadaethau mewn Eisteddfodau Cenedlaethol. Ond teithiodd hefyd gyda'r delyn ledled y byd – i Strasbwrg, Paris, Rhufain, Fienna, Warsaw a dinasoedd enwog eraill, i Siapan a'r Unol Daleithiau. Gwahoddwyd ef yn gyson i'r llwyfannau cerdd pwysicaf. Yng ngwledydd Prydain bu'n perfformio yng ngwyliau cerddorol Caeredin, Cheltenham, Aldeburgh a King's Lynn, gan rannu llwyfan droeon â rhai fel Peggy Ashcroft, Edith Evans, Max Adrian, Paul Robeson, Marius Goring, Hugh Griffith a Richard Burton. Cofir yn bennaf amdano am ei gysylltiad cerddorol â'r cyfansoddwr Benjamin Britten (1913-76). Ymddangosodd Osian Ellis mewn nifer o'i berfformiadau rhwng 1959 a 1976.



Roedd Osian Ellis yn awdurdod ar ganu gwerin. Gwnaeth lawer i ddangos gwerth caneuon gwerin Cymru, nid yn unig i bobl ei wlad ei hun ond i genhedloedd eraill hefyd. Byddai'n canu caneuon o'i waith ei hun, ac i'w gyfeiliant ei hun. Cafodd ei anrhydeddu â'r CBE yn 1971 ac roedd yn Llywydd Anrhydeddus Gŵyl Delynau Cymru. Yn 1980 cyhoeddodd 'Hanes y Delyn yng Nghymru', yn olrhain datblygiad y delyn ac yn trafod hanes rhai o'r telynorion enwocaf.

Cymraes o Bwllheli oedd Rene Ellis-Jones, ei briod, hithau hefyd yn gerddor. Dathlasant eu Priodas Ddiemwnt ar Ionawr 5ed 2011. Ganwyd iddynt ddau fab – Richard Llywarch, a Tomos a fu farw yn 2009. Bu farw Rene hithau rai blynyddoedd ar ei ôl. Bu Osian Ellis yn aelod ffyddlon yn Seion, yr Eglwys Fethodistaidd, Pwllheli. Bu'n gymorth mawr i'r gweinidogion yno ac yn barod iawn i lenwi bwlch yn yr oedfaon pan na fyddai pregethwr ar gael, gan wasanaethu hefyd fel un o'r organyddion.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Newydd Aberdaron.





# O'r Pen Yma

### gan Angharad Tomos

Cysur ydi un o'r pethau mawr mae rhywun ei angen y dyddiau hyn. Doeddwn i ddim yn meddwl fod bod yn gaeth mor ddrwg â hynny yn ystod y gwanwyn a'r haf. Roedd yna newydd-deb i'r cyfan, a da chi'n cofio gwanwyn mor braf gawson ni? Dwi yn un sydd yn dibynnu'n fawr ar y tywydd o ran sut dwi'n teimlo. Felly dotiais at y cyfle o gael amser ar fy nwylo a mwy na digon o gyfle i fynd am dro yn lleol. Hyd yn oed pan ddaeth yr hydref, roedd hi'n hen ddigon braf, a doedd hi ddim yn tywyllu am bedwar.

Mater go wahanol ydi'r gaeaf, a dwi'n ei weld o'n hen aeaf hir, yn enwedig ar ôl Dolig. Ac yn achos sawl un, doedd o fawr o Ddolig. Mae'n anodd rhoi 'nhrwyn allan drwy'r drws pan mae'n wlyb ac yn lawog, a phan mae eira ar y mynyddoedd, byddaf yn cadw draw a'u hedmygu o hirbell. Ond wyddoch chi beth oedd 'best buy' (chwadal nhw) 2020?

Fflasg! Dwi wedi ei defnyddio yn ddyddiol lle bynnag dwi'n mynd am dro. Bron nad ydw i'n mynd am dro er mwyn y cysur a gaf o baned a bisged.

Peth arall ydi potel ddŵr poeth – a slipers, a thanllwyth o dân a sŵn canu. A dwi'n lecio cau'r llenni ar ddiwedd dydd, a swatio. A dwi wrth fy modd cael llyfr gwirioneddol dda ac ymgolli ynddo. Beth ydi eich hoff bethau chi? Beth ydi'r pethau sydd yn rhoi'r cysur mwya i chi? Mae'n werth myfyrio ar y pethau hyn o dro i dro. Peidiwch teimlo ei fod yn beth hunanol. Mewn cyfnod pan gawn ein hamddifadu o gymaint o bethau, mae gofalu amdanom ein hunain a'n teulu, ac estyn am y pethau bach cyffredin hynny sy'n rhoi blas ar y dydd yn holl bwysig. 'My Favourite Things' fel y canwyd amdanynt yn 'The Sound of Music'.

Mae Duw am inni wneud hyn pan mae'r llwybr yn galed. Fel y dywedodd "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf... a chwi a gewch orffwystra i'ch eneidiau. Canys fy iau



sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn.' (Mathew 11. 28-30)

Weithiau da ni'n rhy barod i feddwl am daith y Cristion fel y teithiwr sydd efo'r baich mawr ar ei gefn, a bod bywyd yn frwydr – prawf dyddiol y mae'n rhaid inni ei basio, rhag ofn i Dduw edrych yn gas arnom ar ddiwedd y dydd. Rydan ni'n anghofio weithiau fod Duw yn cerdded efo ni, ac yn ein helpu i gario'r baich. A does dim angen inni ddweud wrtho pa bethau sy'n ein llethu a chodi ofn arnom. Mae o'n gwybod yn barod, ac mae hynny yn fwy o gysur na dim.

# DEFNYDDIO GEIRIAU CADARNHAOL

### *gan Glyn Tomos*

Amser yma y llynedd pwy fyddai wedi meddwl y byddai defnyddio termau fel cyfnod clo, hunan ynysu, swigen deuluol, gwisgo mwgwd a chadw pellter yn dod yn ail natur i ni. Fel sydd wedi cael ei ddweud ganwaith, a hynny yn hollol gywir, bu'r llynedd yn flwyddyn wahanol iawn, iawn i'r arfer a gobaith pob un ohonom yw y byddwn yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd mor fuan â phosibl.

Yr hyn sydd yn nodweddiadol o bob un o'r termau hyn yw y perthyn agwedd negyddol i bob un ohonynt a dyna pam mae cymaint ohonom yn teimlo mor ddigalon ac annifyr ein byd yn gorfod byw o dan amgylchiadau o'r fath. Mae'n groes graen i ni beidio â gweld ein teuluoedd a'n ffrindiau a pheidio â rhoi cwtch neu ysgwyd llaw, tra bod gwisgo mwgwd yn atgoffa rhywun o geisio cuddio wyneb wrth droseddu.







Y cysur mwyaf yn y cyfnod tywyll yma yw bod brechlyn ar y ffordd sydd yn mynd i'n gwarchod rhag cael Covid-19 ac arbed miloedd o fywydau ar draws y byd. Dwi'n clywed pob un ohonoch yn dweud diolch i'r drefn am hynny ac y bydd modd i ni ailafael mewn bywyd unwaith yn rhagor. Brysied y dydd pan welwn hyn yn digwydd.

Fel pob agwedd arall o fywyd tydi ein heglwysi a'n capeli heb osgoi effaith yr aflwydd creulon yma, ac fel yn hanes pob un ohonom bydd gofyn i'n henwadau gael y drafodaeth ynglŷn â sut y byddwn yn ffitio mewn i'r 'normal newydd' fydd yn ein haros.

Wrth gwrs ar ddechrau blwyddyn newydd a ninnau dal yng nghrafangau y pandemig mae'n anodd dychmygu ar hyn o bryd beth fydd y 'normal newydd'. Mae'n ddigon i ni ddal ati i gadw'n ddiogel, edrych ar ôl ein cyflwr iechyd a chorfforol hyd nes bydd y brechiad wedi dod â ni allan o'r hunllef presennol.

Eto pan ddown ni allan o hyn, gaf i awgrymu mai'r cam cyntaf i bob un ohonom fydd bathu termau newydd fel 'agor y clo' (yn lle cyfnod clo); 'cynnwys pawb' (yn lle cadw o fewn y swigen); 'dod at ein gilydd' (yn lle cadw pellter); 'dangos ein hwyneb' (yn lle gwisgo mwgwd). Dewch i ni i gyd ganolbwyntio ar yr elfennau cadarnhaol a ddaw ar ôl i'r cyfnod digynsail hwn ddod i ben.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ebeneser, Ystumtuen

Daethom ynghyd yn ystod Tachwedd i drafod trefniadau'r Nadolig. Yn anffodus teimlwyd mai doeth fyddai aros tan y Gwanwyn i ailgyfarfod. Braf oedd croesawu tri newydd atom a diolchwyd iddynt am yr holl waith a wnaethant i dacluso'r fynwent. Diolchwyd hefyd i Alun am ei ofal o'r capel. Dymuniadau da i Cynan a Hedd wrth iddynt astudio yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Anfonwn ein cofion at nifer o aelodau sy'n wael ar hyn o bryd – yn enwedig Owenna, Tegwen ac Yvonne sydd bellach yn cael gofal gan ei merch. Cofion hefyd at ein gweinidog, y Parchedig Marty Presdee, sydd wedi bod yn bur wael ar ôl ei llawdriniaeth. Edrychwn ymlaen at y Gwanwyn gan obeithio y bydd yr amgylchiadau yn ffafriol i ni allu cyfarfod unwaith eto.

**GOHEBYDD .** GERAINT ROBERTS

### Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD BUAN**
Syrthio a thorri ei choes wnaeth Beti Morris, a bu'n rhaid iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond braf yw deall ei bod adref ac yn cael gofal ardderchog gan y teulu. Pwyll rŵan Bet a chymerwch bethau'n ysgafn yn ystod y gaeaf yma. Mae Bet yn un o selogion Drws Agored ar fore Gwener. Gobeithio yn wir y cawn ddod at ein gilydd cyn bo hir am baned, cwmni a sgwrs.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn ag Anwen Griffiths, aelod ffyddlon yn Shiloh, a gafodd brofedigaeth yn ddiweddar. Bu farw ei brawd yng nghyfraith, ffrind annwyl iawn, ym Mhenarlâg.

Daeth dwy brofedigaeth i ran Bethan Crowe a'r teulu. Bu farw mam Bethan, sef Enid Jones, o Lanberis ond yn wreiddiol o Bentrefoelas, ar Ragfyr 21. Dim ond wythnos ynghynt, bu farw mam yng nghyfraith Bethan. Cydymdeimlwn yn ddwys â Bethan a Dan a'r plant Luke ac Esme a'r holl deulu.



**HANES Y FRO**
Llongyfarchiadau i Wynne Roberts, un o flaenoriaid Shiloh, a ymddangosodd ar raglen 'Cyfrinachau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol' ar Sianel 5 yn ddiweddar. Bu Wynne, sydd â gwybodaeth anhygoel am hanes ei fro, yn sgwrsio â'r cyflwynydd Alan Titchmarsh ynglŷn â hanes Bethesda a'r chwarel. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael eich cwmni eto, Wynne, yn y capel a thros baned i gael sgwrs ddifyr unwaith yn rhagor.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### Ardal Bathafarn

**CYFARCHION**
Dymunwn flwyddyn newydd well i bawb. Mae gobaith yn sicr ar y gorwel gyda dyfodiad brechlyn rhag Covid-19 a byddwn yn fythol ddiolchgar i'r gwyddonwyr medrus a fu'n gweithio'n ddyfal i'w ddatblygu. Ers bron i flwyddyn bellach daethom yn gynefin ag ymadroddion fel 'pellter cymdeithasol' a 'gwisgo mwgwd'. Daeth sawl cerdyn Nadolig gyda'r geiriau 'Cadwch yn ddiogel' arnynt! Wrth gwrs roedd clywed gan deulu a chyfeillion yn gysur yn y cyfnod hwn ac yn rhoi llawer o bleser. Chwith iawn fu gorfod hepgor canu carolau, Plygain, gwasanaethau Nadolig, te parti ac yn y blaen. Er hynny, da oedd cael ymuno â phobl mewn llawer gwlad ar noswyl Nadolig i sefyll ar drothwy drysau ein cartrefi a chanu 'Dawel Nos'. Syndod oedd sylweddoli fod llais canu yn dal gennyf ar ôl yr holl fisoedd o dawelwch!

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Enid a Hywel Edwards, Glyndyfrdwy, o golli cefnder annwyl sef Aerwyn Jones, Llangwm. Cydymdeimlwn hefyd ag Audrey Jones, a oedd yn chwaer yng nghyfraith iddo. Fe gollodd Audrey hefyd gefnder sef Morgan Pierce, Caerlŷr, mab hynaf John a Vida Pierce. Roeddem i gyd yn falch fod Morgan wedi ymuno â ni yn Nathliad 150 Capel Bathafarn a chofiwn amdano fel cymeriad hoffus a hwyliog iawn. Yr un yw ein cydymdeimlad â Rob ac Edwina Stephen. Mewn cyfnod byr fe gollodd Rob frawd yng nghyfraith, chwaer yng nghyfraith a chefnder – sef Neil Adam, enw adnabyddus yn nhref Rhuthun lle roedd y teulu'n cadw siop ddodrefn. Meddyliwn hefyd am Meta Beech a'r teulu sydd wedi colli perthynas annwyl iddynt, Mair Beech Davies gynt o Dŷ Mawr, Bryneglwys a Chroesoswallt. Bu Mair a'i phriod Gwyn yn ffyddlon a gweithgar yng nghapel Seion, Croesoswallt am flynyddoedd. Meddyliwn amdanoch i gyd fel teuluoedd.

**NEWID AELWYD**
Pob dymuniad da i Phil Lloyd, sef mab y diweddar Emlyn a Margaret Lloyd – teulu selog yn hen gapel Wesle Hirwaen gynt. Mae Phil wedi symud i'r Llan yn Llanbedr. Pob bendith a hapusrwydd iddo a dymuniadau gorau am wellhad buan.

**GWASANAETH RHITHIOL**
Diolch o galon i Siôn Hughes am gymryd rhan yng ngwasanaeth Nadolig rhithiol tref Rhuthun ar Facebook. Roedd dros fil o bobl wedi dilyn y gwasanaeth. Yn sicr dyma'r ffordd ymlaen, yn ogystal â dulliau traddodiadol.

**HENO**
Hyfryd oedd gweld Helen ac Elgan Hughes ar raglen 'Heno' ar S4C gyda'r plant. Mae Helen wedi cael triniaethau enbyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond rydym mor falch ei bod yn cael gwellhad. Pob bendith arnynt fel teulu.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES



### Cynfaen, Calcoed

**ADDOLI YN YSTOD CYFNOD ANODD**
Er yr holl broblemau a wynebwyd, mae'r gynulleidfa wedi bod yn dal i addoli. Mae pawb yn ddiolchgar i'r Parchedig Marc Morgan a Margaret am eu ffyddlondeb yn dod atom i wasanaethu. Mae ein diolch yn ddiffuant iawn i Karen, ein trysorydd ffyddlon, am sicrhau ein bod yn cadw'n ddiogel ac yn cadw at reolau Covid-19.

**GWASANAETH NADOLIG**
Ar bnawn Sul Rhagfyr 13eg cafwyd Gwasanaeth Carolau Dwyieithog. Oherwydd y cyfyngiadau nid oedd modd cynnal y gwasanaeth arferol, ac yn hytrach na chanu carolau cawsom wrando ar rai trwy'r cyfrifiadur. Diolch hefyd i Geraint Roberts am chwarae cadwyn o garolau ar yr organ tra dangoswyd lluniau pwrpasol ar sgrin.

Braf yw croesawu Henry, ein 'bugail bach', a'i deulu sydd wedi dychwelyd o Dde America. Maent wedi dychwelyd adre ar ôl cyfnod anodd pan gawsant drafferthion gyda fisâu. Dyma lun o Henry yn ein gwasanaeth carolau.

Rydym yn hynod falch fod Tatiane, mam Henry, o'r diwedd wedi derbyn pasbort Prydeinig sy'n golygu y caiff hi a Henry fyw yn barhaol yma yng Nghymru. Fel y dywed Tati, mae gartref yn awr gyda'i theulu, nid yn unig ar yr aelwyd ond hefyd yn yr eglwys. Am nad oedd modd gael y paned a mins pei arferol ar ddiwedd yr oedfa cafodd pawb 'goody bag' i fynd adre, oedd yn cynnwys mins pei, bag te, ychydig o felysion a cherdyn Nadolig. Er pob anhawster, cafwyd bendith o ddod at ein gilydd i ddathlu Gŵyl y Geni.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at nifer o aelodau sydd yn diodde ar hyn o bryd. Cofion arbennig at Aelwen ein horganydd ffyddlon sydd yn gaeth i'w chartref ar hyn o bryd. Hefyd ei chwaer Eryl sydd mewn Cartref Preswyl ers tro bellach.

**GOHEBYDDION .** MARGARET MORGAN A GERAINT ROBERTS





### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau i Mrs Eirwen Jones a ddathlodd ei phen-blwydd yn 95 oed yn ystod y Nadolig. Gobeithio i chi fwynhau y diwrnod. Mae aelodau Preswylfa yn cofio atoch.

**DYMUNO'N DDA**
Dymuniadau gorau i Bethan Williams, hithau wedi cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Gwellhad buan iawn i chi. Mae pawb yma yn anfon eu cofion atoch.

**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

### Ebeneser, Treuddyn

**CADW CYSYLLTIAD**
Ar ddechrau blwyddyn newydd rydym wrth gwrs yn dal i ffeindio'n hunain yng nghanol yr argyfwng Coronafeirws. Er bod yna frechiad ar y gorwel, ni wyddom eto pryd y cawn gyfle i'w gael na phryd felly y cawn gyfle i gynnal gwasanaethau rheolaidd yn y capel. Er hyn i gyd, rydym yn dal i fod yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a'r Parchedig Marc Morgan am eu gwasanaethau dros y we bob wythnos. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cadw cysylltiad agos â'n gilydd.

Ar hyn o bryd rydym yn cofio'n arbennig am Eunice Griffiths, sydd ddim wedi cael yr iechyd gorau ers peth amser ac sydd yn awr yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi yn ystod yr amser anodd yma. Hefyd, cofiwn am ein gweinidog, y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans sydd wedi cael clun newydd yn ddiweddar. Dymunwn lwyr wellhad iddi a gobeithiwn y bydd yn ddi-boen eto yn fuan iawn. Cofiwn hefyd am Bronwen Gough, cyn aelod yng Nghapel Salem, Eryrys, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn adferiad llwyr iddi hithau hefyd.

Wrth ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gobeithiwn y bydd pawb yn cadw'n saff tan fydd yr argyfwng yma drosodd. Yn y cyfamser anfonwn ein cofion cynnes at holl aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio'n arbennig am y rhai sydd wedi dioddef gwaeledd yn ystod y misoedd diwethaf.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### Ebeneser, Trefor, Môn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â David a Ruth Williams, Tomos ac Owain. Bu farw tad David ganol Rhagfyr.

**DYMUNO'N DDA**
Bu 2020 yn flwyddyn anodd i bawb mewn cynifer o ffyrdd. Ni fu gwasanaeth yn y capel hwn ers canol Mawrth, er i ni dderbyn gwasanaethau a myfyrdodau drwy e-bost. Gobeithio y gallwn agor eto cyn bo hir. Cafodd rhai o'n haelodau golledion mawr yn ystod y flwyddyn a meddyliwn yn arbennig amdanynt hwy. Dymunwn iechyd a bendith i bawb yn y flwyddyn newydd. Cofiwn am eiriau emyn John Roberts:


"gwn am y llaw a all fy nghynnal i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.»

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

**MARADONA**
Trist iawn oedd clywed am farw'r peldroediwr enwog Diego Armando Maradona o drawiad calon ar ei aelwyd yn Nhachwedd y llynedd ac yntau yn drigain oed. Roedd yn un o gewri'r byd pêl-droed ac yn seren ei wlad sef yr Ariannin. Meddai Arlywydd yr Ariannin ar ôl clywed y newydd trist: "Est ti â ni fel gwlad i frig y byd – gwnest ti ni'n hynod o hapus. Ti oedd y mwyaf ohonynt i gyd". Breintiwyd Diego Maradona â sgiliau pêl-droed aruchel a pherthynai iddo bersonoliaeth angerddol. Dyma seren a ddaeth yn eilun ei wlad a'r byd ond nid tîm pêl-droed Lloegr! Y foment nas anghofir oedd yn chwarteri Cwpan y Byd (1986) pan sgoriodd Maradona y gôl enwog a adwaenir fel "Llaw Duw" (La Mano De Dios) yn erbyn Lloegr o bawb! Bowndiodd y bêl oddi ar ei law ac yn syth i'r rhwyd a chaniatawyd hi yn syth gan y dyfarnwr a bu coblyn o halibalŵ sy'n dal i ferwi 34 mlynedd ar ôl y gêm. Cyn y gôl ddadleuol hon, roedd Maradona wedi sgorio'r hyn a gofir yn gôl y ganrif. Fe'i ganed mewn tlodi affwysol ac er iddo gyflawni cymaint fel peldroediwr, nid anghofiodd ei wreiddiau. Cafodd fywyd personol dyrys a dadleuol, yr effeithiwyd arno'n fawr yn anffodus gan gocên ac alcohol.



**ARWYDD Y GROES**
Magwyd Maradona ar aelwyd Gatholig. Roedd ei gydwladwr sef y Pab Ffransis, a oedd wedi cyfarfod â Diego droeon, wedi bod yn gweddïo drosto yn ystod ei salwch. Dywedodd y Pab fod pob cyfarfod a gawsai ag ef yn serchog a diffuant. Dywedodd Diego yntau un tro: "Rwy'n freintiedig oherwydd dyna oedd ewyllys Duw – ef a'm gwnaeth a neb arall i fedru chwarae pêl-droed yn dda. Dyna pam y gwnaf arwydd y Groes bob tro y dof ar y cae. Pe na buaswn yn gwneud hyn, buaswn yn bradychu fy Nuw".

Rhai llinellau o gân Hogia'r Wyddfa gaiff y gair olaf am y dewin o'r Ariannin –
"Yn nhîm yr Ariannin mae na stocyn bach cryf
Sy'n gorff o gyhyrau dan fop o wallt du.
Y bêl wrth ei draed o yn glynu fel dur
Heb os dyma'r arwr yng nghwpan y byd.
A hwn ydy eilun y Wladfa reit siŵr
A mentraf awgrymu mai Cymro yw'r gŵr.
Hapused y freuddwyd ond o be di'r iws
Maradona'n cyd-chwarae hefo Rush a Mark Hughes".

**TRYSTIO?**
Sioc fawr, a dweud y lleiaf, oedd gweld y penawdau hyn ar ddechrau Rhagfyr: "Clergy less trusted than Mr Average" a "The clergy's reputation for truthfulness". Hyn oll yn deillio o arolwg (Ipsos Mori Veracity Index 2020) go ddamniol a awgrymai fod ymddiried a dibyniaeth y cyhoedd mewn Clerigion wedi lleihau yn ddramatig yn y deng mlynedd ar hugain diwethaf wrth gymharu â galwedigaethau dethol eraill. Yn yr arolwg roedd y dyn neu'r ddynes gyffredin ar y stryd yn cael eu hystyried yn fwy geirwir o bell ffordd! Nyrsys a Meddygon oedd uchaf o ran proffesiynau y byddai pobl yn ymddiried ynddynt – roedd 91% yn trystio'r galwedigaethau hyn i ddweud y gwir. Yn eu dilyn roedd athrawon, penaethiaid adrannau mewn colegau, barnwyr, gwyddonwyr, gweithwyr gofal ac ati. 54% oedd yn ymddiried fod Clerigion yn dweud y gwir. Yn 1983 roedd y ffigwr yn 85% a phum mlynedd yn ôl roedd wedi gostwng i 71%. Gyda thristwch yr awgrymaf nad adlewyrchir yn dda o gwbl ar yr offeiriadaeth yn yr arolwg hwn. Eleni (2021) byddaf yn dathlu hanner can mlynedd yn yr Offeiriadaeth a bûm yn ffodus o adnabod a chydweithio ag Offeiriaid a Gweinidogion yr oedd modd ymddiried a dibynnu yn llwyr arnynt. "Ceryddu'r Offeiriaid" a geir ym mhennod gyntaf llyfr olaf yr Hen Destament sef Llyfr Malachi, ac er mor anodd yw hi, ceisio ymgyrraedd at gyflawni'r geiriau hyn yn y bennod hon a ddisgwylir – "Gwir gyfarwyddyd oedd yn ei enau, ac ni chaed twyll ar ei wefusau...oherwydd cennad Arglwydd y lluoedd yw". Mae gan Einion Evans englyn dan y teitl "Wrth Siarad y Gwirionedd".

Yn awr nyni sy'n siarad – y gwir plaen,
gwŷr heb blwm condemniad,
pêr ei sain fo ein perswâd
a'r geiriau'n rhai o gariad.

Daw i'r cof hefyd frawddeg o weddi yn llyfryn Gwasanaethau i Ysgolion Uwchradd – "Cadw ni dan dy nawdd fel y llefarom y gwir bob amser a dwg ni oll i berffaith ryddid dy wirionedd".

**"DISGYN DRWY'R CRAC"**
Yn olaf, af i dref Burnley a thîm pêl-droed y dref honno, tîm yr oeddwn yn ei gefnogi pan yn hogyn ysgol. Aeth tipyn o flynyddoedd heibio ond gallaf hyd heddiw enwi'r tîm yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf yn llawn, enwau fel y capten Jimmy Adamson, yr asgellwr chwim Roy Connelly a'r gôl geidwad Adam Blacklaw. Ond daeth Burnley i sylw'r byd ar ddechrau Rhagfyr pan welwyd Ficer Eglwys St. Mathew yn y dref, y Parch. Alex Frost, ar brif raglen newyddion y BBC, yn torri i lawr yn hidl i grio. Gwelwyd yr olygfa hon ar draws y byd. Mae ei eglwys yn gweithio mewn partneriaeth â "Gweinidogaeth yr Eglwys ar y strydoedd" gyda'r bugail Mike Pleming a gwneir gwaith arbennig yn y maes hwn. Enw addas iawn sydd i gylchgrawn Eglwys St. Mathew sef "Outreach" ac mae'n gylchgrawn arbennig iawn gyda'i 28 tudalen. Dwy frawddeg mewn cyfweliad teledu o eiddo y Parch. Alex Frost sy'n ddigon i'n sobri oll a'n cywilyddio yn llwyr ar gychwyn 2021 a hynny mewn gwlad sydd ymhlith y cyfoethocaf yn y byd. Caiff geiriau y Ficer o Burnley yn ei famiaith ein hysgwyd oll – "I am visiting a family who have no carpet, no settee, no gas, no electric and NO FOOD.That broke my heart, because NOBODY CARED FOR THEM.They fell through the crack".



# GOLEUNI

*gan y Parchedig Richard Gillion*

Mae amryw byd o wyliau crefyddol ac arferion poblogaidd yn digwydd ddiwedd yr Hydref a dechrau'r Gaeaf. Maent yn cyffwrdd yn aml â thema goleuni. Nid yw'n syndod bod i'r gwyliau hyn apêl boblogaidd yn nyddiau tywyllaf y flwyddyn, pan fydd hi'n hwyr yn gwawrio ac yn gynnar yn machludo. Yn yr un modd croesewir y Gwanwyn, lawn cymaint am y goleuni a ddaw ag am y tyfiant sy'n dilyn. Yn wir, yn Saesneg mae enw'r Grawys (Lent) yn awgrymu cyfnod lle mae'r dyddiau'n dod yn hirach, yn ymestyn. Efallai fod gan boblogrwydd y Pasg fwy i'w wneud â'i amser meteoroleg na'i amser ysbrydol – atgyfodiad ar ôl cyflawniad aberth y Pasg Beiblaidd.
Weithiau rydym yn mynd trwy dreialon sy'n teimlo fel aros yn y tywyllwch i'r golau dorri trwodd:

Pan fo calon lawn o hiraeth
Yn ymdroi yn niwl y glyn,
A chymylau siomedigaeth



Yn gorchuddio gobaith gwyn,
Yn Dy gwmni
Daw goleuni yn yr hwyr.
**Evan Rees (Dyfed) 1850-1923**

Mae gan ein ffydd lawer i'w ddweud am oleuni – cord cyntaf y greadigaeth, neges gair Duw wedi'i hysgrifennu a'i dysgu yn y Gyfraith a'r Salmau. Ond yn y pen draw fe'i gwelwyd yn dod i'r byd ym mywyd daearol Iesu Grist.
Mae Iesu'n gwahodd pobl i ddod yn bobl y goleuni – yn fewnol drwy adael i Dduw ein chwilio'n fanwl a'n puro, ac yn allanol drwy fod yn arwyddion clir i bobl eraill. Rydym i fod fel goleudai i dynnu sylw at beryglon ac i arwain pobl adref yn ddiogel.
Mae Iesu'n ein galw yn bobl y goleuni ac felly hefyd yr Apostol Paul wrth iddo ysgrifennu at yr Effesiaid: Tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd. Byddwch fyw fel plant goleuni, oherwydd gwelir ffrwyth y goleuni ym mhob daioni a chyfiawnder a gwirionedd.
Nid oes unrhyw gyfeiriad at fod yn bobl y goleuni pan fyddwn yn yr hwyliau iawn, neu pan fyddwn yn teimlo'n hapus neu mewn amgylchiadau da, neu pan fydd yr haul yn tywynnu. "Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth." Mae'n galw arnom i fod yn gyson yn y Gaeaf ac yn yr Haf. Oherwydd nid yw'n dibynnu ar ein galluoedd, ond ar bresenoldeb yr Arglwydd trwy'r Ysbryd Glân.

Llwybrau bendith yw'i orchymynion,
Llwybrau bywyd, llwybrau gwir;
Trwy bob cwmwl mae yn gweithio
Mewn goleuni disglair pur;
Mae'i ddyfodiad fel yr heulwen;
Byth ni allwn yma fyw
Heb gael profi presenoldeb
Llawn, hyfrydaf, pur fy Nuw.
**William Williams 1717-91**



# Wrth fynd heibio

*gan William H. Owen*

Wrth i ni bendroni ers y Calan beth sydd o'n blaenau y flwyddyn hon mae'n anodd gweld y ffordd yn glir rhywsut, brechlyn neu beidio. O safbwynt y byd crefyddol mae'n sefydliadau eglwysig wedi cael cnoc enbyd ac mae'n anodd gweld sut y dônt drwy'r drin yn ystod 2021.
Eto, mae datblygiadau calonogol gyda llawer o wasanaethau ar Zoom os yw aelodau'n gybyddus â'r cyfryngau newydd. Clywaf fod rhai yn cael bendith fawr wrth fod yn ffenestr un o'r gwasanaethau hyn, o bell ac agos.
Datblygiad arall ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar yw tudalen o'r enw Y Capel ar Facebook. Byddai rhai yn ddigon parod i ddweud nad yw capel a Facebook yn gydnaws â'i gilydd. Mae'n wir fod digon o bethau anllad ar y cyfrwng a rhai yn defnyddio iaith fyddai'n 'cywilyddio'r tadau yn eu heirch'. Yr un pryd, mae eraill yn gwneud defnydd mwy dyrchafol ohono er mwyn diddanwch gwâr a daioni.
Yn y dosbarth hwnnw y rhown Y Capel. Y darlledwr Huw Edwards a'r gweithiwr di-ildio mewn sawl maes, Trystan Lewis, yw symbylwyr pennaf y dudalen. Mae gwybodaeth y ddau am gapeli a hen gapeli sydd wedi hen gau yn ddihysbydd ac mae'n wers hanes heb ei bath am adeiladau ac organau wrth i luniau a gwybodaeth gael eu hychwanegu. Ar y dechrau roedd hi'n tyfu fel caseg eira o ran y diddordeb oedd ynddi. Ymunodd 700 â hi yn ddiymdroi a rhai am y gorau gyda Huw a Trystan yn cynnig ffotograffau i'n goleuo am gapeli eu hardal hwy – rhai'n dal i fynd (pan oedd yr amgylchiadau'n caniatáu) ac mewn cyflwr da, ac eraill yn rhan o'n gorffennol ac yn destun cryn ofid i'r rhai sy'n 'cofio'r dyddiau da'.
Yr hanes sy'n drawiadol, sut y bu'r capel yn ganolbwynt i weithgarwch cymdeithasol mor uchelgeisiol, yn arbennig ym myd y gân. O fewn cof llawer ohonom chwalodd y cyfan fel petai rhyw yrrwr yn rhywle wedi gwasgu'r brêc a chyhoeddi 'Dyna ddigon o hyn'na'! Y cyfan sydd ar ôl yw drychiolaeth o oes a fu'n rhan mor greiddiol o'n bodolaeth.
Mae nifer dilynwyr Y Capel yn adlewyrchiad i raddau o'r dirywiad a ddigwyddodd. Cymharwch y cannoedd sy'n ymddiddori yn hanes y capeli gyda'r miloedd lawer sydd wedi ymuno â safle CÔR-ONA! ar Facebook. Y digymar Catrin Angharad Jones a sefydlodd hon ar ddechrau'r anfadwch mawr a chanu sy'n mynd â hi. Cyfanswm cefnogwyr y dudalen yw 46,400 ac amryw yn canu'n ddyddiol, rhai yn ddigon persain.
Canu emyn y mae sawl un wedi ei wneud arni sy'n dangos fod y cof am weithgarwch y capel yn dal yn fyw yn yr isymwybod. Atgof a dim arall mae'n beryg', o fewn clydwch y cartref. Prin y cawn weld unrhyw frwdfrydedd cymdeithasol o'r newydd yn deillio o hyn, a dal yn swrth y bydd gweithgarwch y capeli pan fydd cyfle i agor y drysau led y pen unwaith yn rhagor.
Ond daw rhyw fath o gysur o'r hanes gwych a fu drwy waith Huw a Trystan.

# Cwmni Llawen Nain

***gan Myfanwy Povey***



"Haleliwia bonetsi ac amen strings, calon fendigedig a thanbari tins!"

Dyma un o rigymau hwyliog, llawen a diystyr fy nain, sef Elizabeth Jones, Nanthir, Cwm Cynllwyd, y byddai'n ei lafarganu i ddifyrru'r plant pan oedd pethe'n heriol ac anodd eu dirnad.

Cawres o ddynes i mi, bu farw fy nain yn 1965 pan oeddwn i'n 'student nurse' yn y Royal London Hospital. Ffermiodd yn wraig weddw nes daeth y meibion yn ddigon hen, ac roedd yn denant i Syr Watkin Williams Wynn. Yn ddynes ar ei phen ei hun am 35 mlynedd, cadwai weision a magodd naw o blant; collodd hefyd ddau blentyn o achos heintiau'r oes, cyn dyfodiad gwrthfiotigau. Magodd beth bynnag ddau blentyn arall ar ôl iddynt golli rhiant. Bu'n help hefyd i fagu wyth ohonom yn fy nghenhedlaeth i, a chan mai fi oedd yr hynaf treuliais oriau yn ei chwmni difyr, addysgiadol. Weles i mohoni'n mynychu'r capel erioed, ond roedd yn adrodd cannoedd o adnodau ar ei chof, o'r Salmau gan fwyaf, a gallai ganu dwsinau o emynau wrth wneud ei gwaith a chario'r babi diweddaraf ar ei chlun dde. Roedd ei chefn yn gam o'r achos erbyn diwedd ei hoes. Roedd wedi cael addysg grefyddol gadarn ym more ei hoes. Roedd yn llawn hwyl ac yn hoff o jôc hefyd.

A dyma fi'n nain fy hun ac amser ar fy nwylo yn ystod cyfnod y Covid i fyfyrio ar be fase Nain yn feddwl o'r pandemig ac yn arlunio hefo fy wyres a cheisio ei difyrru trwy ganu fel Nain! Caneuon gwlad yw'r gore gen i. Crefyddol yw'r rhan fwyaf o rai John ac Alun!


Edrychais hefyd yn y Beibl i weld beth oedd wedi ei gofnodi am 'nain' ac yn 2 Timotheus 1:5 cefais hanes yr unig un a enwir fel nain sef Lois, a thystiolaeth gref ydyw hefyd o bwysigrwydd neiniau i ddatblygu cymeriad cryf a chrefydd ddiffuant i'r genhedlaeth nesaf.

Roedd cenhedlaeth fy nain i yn gyfarwydd iawn â heintiau, a phan ddechreuais i nyrsio yn 1962 roedd y T.B. ac effeithiau Poliomyelitis yn dal yn gyffredin a chreulon. Cofiaf nyrsio dyn mewn 'Iron Lung', cyhyrau yr ysgyfaint wedi eu parlysu am ei oes.

Roedd y T.B. yn cael ei drosglwyddo o'r naill i'r llall, yn debyg i'r Covid, o'r anadl. Awyr iach oedd yr amddiffyniad cyntaf, felly roedd y wardiau yn Ysbyty Orthopedig Gobowen ar agor ddydd a nos, haf a gaeaf, ymhob tywydd ac eira ar y gwlâu yn 1963! Roedd ysbyty heintiau wych yn Llangwyfan hefyd lle bu fy Nhad am amser maith. Fe'i galwyd yn 'T.B. hosbitol'. Byddai ysbytai heintiau o'r fath mewn mannau anghysbell – ynysu, ac awyr iach, oedd y polisi.

Cefais i fy mrechu rhag pob math o afiechydon heintus dros y blynyddoedd: difftheria, poliomyelitis, colera, y frech wen, teiffoid, parateiffoid, tetanus toxoid i restru ond rhai. Roedd yn rhaid cario pasbort brechu hefyd. Roedd y gofal gan yr Home Sister a'r Meddyg Staff yn drwyadl ac arbennig. Y 'Medical Officer of Health' oedd yn gyfrifol am **orfodi** unrhyw rai oedd wedi cymysgu hefo'r un heintus i ynysu. I fod yn feirniadol am y polisïau cyfredol rhaid gofyn be ddigwyddodd fod pethau wedi dirywio mor ofnadwy? Ydw, dwi'n gwybod yr ateb – diariannu y gwasanaeth!

Ymlaen am y brechiad rhag y Covid, ond tybed fydd o'n concro pob gofid? Amheus? Cadwch yn llawen a saff a siaradwch ar y ffôn, ar Twitter neu ar unrhyw gyfrwng cyfoes hefo'ch holl ffrindiau i gadw'r meddwl yn siarp; cofiwch mae unigrwydd yn lladdwr hefyd.






# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## COLLI AMSER?



Flwyddyn yn ôl, wrth gyfeirio yn y golofn hon at 'y byd o amser a'i gyfyngiadau', sôn oeddwn am y ffordd y mae amser yn cyfyngu arnom fel na fedrwn ail fyw profiadau. O fewn wythnosau, daeth cyfyngiadau llym ar ein symudiadau a'n ffordd o fyw, yn cynnwys ein gallu i gynnal oedfaon a gweithgareddau eglwysig. Ar ddechrau 2021, parhawn i wynebu cyfyngiadau tebyg, a Duw yn unig ŵyr pryd y down yn rhydd ohonynt.

Ar un wedd, mae'n anodd peidio â theimlo fod naw mis wedi eu colli, â phobl heb fedru gweithio ac wedi methu â gweld teulu a ffrindiau, a llu o weithgareddau wedi eu gohirio. I Gristnogion, nid y lleiaf o'r colledion hynny fu colli oedfaon eu capeli eu hunain am na fu'n bosibl i sawl eglwys eu cynnal ers diwedd Mawrth. Yn waeth na dim, daeth Covid-19 â galar i filoedd o deuluoedd a gollodd anwyliaid.

Ond os collwyd amser, nid y pandemig a'i dygodd. Nid mewn byd delfrydol nac mewn amgylchiadau ffafriol o'n dewis ein hunain yr ydym yn byw. Meddai Paul: 'Gwyliwch eich ymddygiad yn ofalus, gan fyw ... fel rhai doeth. Daliwch ar eich cyfle, oherwydd y mae'r dyddiau'n ddrwg' (Effesiaid 5:15–16). Nid am 'ddyddiau drwg' Covid y sonia wrth gwrs, ond am yr annuwioldeb a'r anghyfiawnder a'r anfoesoldeb a'r dioddefaint sydd mor amlwg yn ei fyd ef a ninnau.

Dywed wrthym mai yn y byd drwg hwnnw yr ydym i fyw gan 'ddal ar bob cyfle' neu 'brynu'r amser'. 'Deallwch', meddai, 'beth yw ewyllys yr Arglwydd ... Canwch a phynciwch o'ch calon i'r Arglwydd ... a byddwch ddarostyngedig i'ch gilydd, o barchedig ofn at Grist' (5:17–21).

Beth bynnag ein hamgylchiadau eleni, boed i Dduw ein nerthu i brynu'r amser gan ei foli ef a gwasanaethu eraill yn enw Crist.



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

- Ebeneser, Tywyn £100.00
- Ebeneser, Dolgellau £100.00
- Casgliad Nadolig Pendref, Dinbych £300.00
- Rhodd er cof am Kathleen M Owen £ 20.00

*Rhoddion a glustnodwyd ar gyfer prosiectau a fyddai fel arfer yn derbyn anrhegion Nadolig:*

- *Glenys a Fergus Davies £ 20.00*
- *Dora Jones £ 10.00*
- *Carolyn Watts £ 10.00*
- *Teulu Watson £100.00*
- *(Cyfanswm £140.00)*

Anfonwyd cyfanswm o £660.00 yn enw Synod Cymru.
Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth. Marc a Margaret

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717 ✉ cwrteden@gmail.com



# TUDALEN Y PLANT


Mae'n debyg fod rhwng 1 a 2 filiwn o wahanol rywogaethau o anifeiliaid ar y ddaear. Tybed pa un yw eich hoff anifail chi.











## Mae Llyfr y Diarhebion yn yr Hen Destament yn dweud pa mor glyfar yw hyd yn oed creaduriaid bach iawn:-

Mae pedwar peth ar y ddaear sy'n fach,
ond sy'n ddoeth dros ben:

morgrug, sy'n greaduriaid bach gwan,
ond sy'n casglu eu bwyd yn yr haf.

Brochod y graig, sydd ddim yn gryf chwaith,
ond sy'n gwneud eu cartrefi yn y creigiau.

locustiaid, sydd heb frenin i'w rheoli,
ond sy'n mynd allan mewn rhengoedd trefnus;


a madfallod – gelli eu dal yn dy law,
ond gallan nhw fynd i mewn i balasau brenhinoedd!


(Diarhebion 30:24-28)

## Gweddi

Diolch i ti, o Dduw, am greu byd mor rhyfeddol.

Beth am gysylltu'r dotiau i wneud llun creadur sy'n enwog am fod yn ddoeth –





LLUNIAU: FREE BIBLE IMAGES